Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd: Cynllun Iaith Gymraeg

2009 – 2011

Awdurdod Safonau Proffesiynol* ar 19 Mawrth 2009 gan dderbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14 (1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 23 Tachwedd 2009.

* Cymeradwywyd y cynllun hwn yn 2009 pan gafodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ei adnabod fel y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE) a chyn Deddf 2012 pan wnaed y newid i Awdurdod Safonau Proffesiynol.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

council for healthcare regulatory excellence

Datganiad

- Mae'r Cynllun yn bodloni ein gofynion statudol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn, wrth gyflawni busnes â chleifion a'r cyhoedd yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- Rydym yn sefydliad wedi ei leoli yn Llundain gyda chylch gorchwyl ledled y Deyrnas Unedig. Rydym wedi penodi aelod o Gymru i'n Cyngor i gynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru.
- Nid oes gennym adnoddau ar gyfer swyddfa yng Nghymru, ond byddwn yn hyrwyddo gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg wrth weithio'n uniongyrchol â chleifion a'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth lunio'r gofynion a sefydlir yn ein Cynllun, rydym wedi ystyried beth sy'n briodol dan yr amgylchiadau a beth sy'n rhesymol ymarferol.
- Er bod y prif gyfrifoldeb am ddarpariaeth gwasanaeth yn y Gymraeg yn nwylo ein Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol, bydd ein Rheolwr Materion Cyhoeddus yn goruchwylio gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd.
- Dim ond wedi cael cymeradwyaeth y Cyngor ac mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg y gellir gwneud unrhyw addasiadau i'r Cynllun hwn.

Cyflwyniad

Rydym yn gorff annibynnol, atebol i'r Senedd. Ein prif bwrpas yw hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn elfen bwysig o hyrwyddo a diogelu iechyd cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru ac yn gysylltiedig â'n cynllun cyfathrebu 2009-2011.

Rydym yn archwilio a goruchwylio rheolyddion y proffesiynau iechyd.[1] Rydym yn gweithio gyda'r rheolyddion i nodi a hyrwyddo arfer da o ran rheoleiddio, cyflawni ymchwil, datblygu polisi a rhoi cyngor ar arfer da ym myd rheoleiddio.

[1] Rydym yn goruchwilio naw rheolydd o broffesiynau iechyd. Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, sy'n rheoleiddio ceiropractyddion; y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sy'n rheoleiddio deintyddion a gweithwyr deintyddol eraill; y Cyngor Meddygol Cyffredinol, sy'n rheoleiddio meddygon; y Cyngor Optegol Cyffredinol, sy'n rheoleiddio optegwyr fferyllol ac optometryddion; y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sy'n rheoleiddio meddygon esgyrn; y Cyngor Proffesiynau Iechyd, sy'n rheoleiddio aelodau 13 o broffesiynau iechyd megis ciropodyddion, therapyddion galwedigaethol, dietegwyr a ffisiotherapyddion; y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd; Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon, sy'n rheoleiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon; Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, sy'n rheoleiddio fferyllwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Pwrpas y naw rheolydd yw amddiffyn a hyrwyddo diogelwch cleifion. Maent yn cyflawni hyn trwy gynnal cofrestr o'r rhai sy'n bodloni safonau ymddygiad, addysg a moeseg a sefydlir gan y cyrff rheoleiddio. Maent yn delio â phryderon am weithwyr sy'n methu bodloni'r safonau hyn a gallant dynnu gweithwyr oddi ar y gofrestr, a'u hatal rhag ymarfer os ydynt yn ystyried bod hyn er lles diogelwch y cyhoedd.

Rydym yn ymgynghori â llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector. Yn ogystal, byddwn yn cadw golwg ar bolisïau rhyngwladol yn effeithio ar reoleiddio iechyd yn y Deyrnas Unedig, yn arbennig ar ddatblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Deyrnas Unedig a thramor, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn yr amrywiol wledydd, ac i gryfhau cysylltiadau â phob partner.

Cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith

Ein pwrpas yw gwasanaethu cleifion a'r cyhoedd trwy hyrwyddo eu hiechyd, diogelwch a lles. I wneud hyn byddwn yn gwrando ar farn a phryderon cleifion a'r cyhoedd, gan eu hystyried wrth ddatblygu ein gwaith. Cynhaliom gyfarfodydd i ymgynghori â'r cyhoedd a chleifion yn 2007 ac ym Mawrth 2008.

Byddwn yn cyhoeddi taflenni gwybodaeth, dogfennau neu ymgynghoriadau wedi eu hanelu at gleifion a'r cyhoedd yn y Gymraeg ar dudalen Gymraeg ein gwefan www.chre.org.uk a lansir ar yr un dyddiad a'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Rydym am gynnwys botwm llywio o'r enw "Cymru" ar dudalen gartref ein gwefan, yn cyfeirio cleifion a'r cyhoedd at ein tudalen Gymraeg. Byddwn yn cyfathrebu â chleifion a'r cyhoedd sy'n siaradwyr Cymraeg trwy:

- daflenni i gleifion a'r cyhoedd
- dogfennau ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer cleifion a'r cyhoedd
- ymgynghoriadau cyhoeddus cenedlaethol
- crynodebau allweddol yn codi o ymgynghoriadau cyhoeddus
- argymhellion terfynol a ddatblygir o ganlyniad i ymgynghoriad â'r cyhoedd.

Bydd y dogfennau uchod ar gael ar www.chre.org.uk dan ddolen "Cymru".

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Iaith gan Rachael de Souza, Rheolwr Materion Cyhoeddus, Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd, 11 Strand, Llundain, WC2N 5HR.

Darparu gwasanaeth a chynllunio

- **polisïau a mentrau newydd**
    - wrth ystyried cynnig ar gyfer polisi newydd, cyflawnir asesiad o effaith debygol y mentrau newydd arfaethedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg. Asesir gallu eraill i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg fel rhan o'n harferion gwaith rheolaidd
    - byddwn yn darparu hyfforddiant i staff a rheolwyr sy'n ymwneud â datblygu'n polisïau. Byddant yn cael gwybod am y Cynllun Iaith Gymraeg a'n cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd ein rhaglen hyfforddi yn eu cynefino â gweithredu, adrodd ar a gwerthuso cynlluniau ar gyfer y Cynllun.
    - rydym yn cydnabod diwylliant ac anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg a'n nod yw bodloni ein rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyfer cyfieithiadau i'r Gymraeg wrth weithio gyda chleifion a'r cyhoedd yng Nghymru.
    - byddwn yn gofyn am adborth rheolaidd gan bartneriaid yn Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i archwilio sut bydd ein Cynllun yn cael effaith ar gleifion a'r cyhoedd yng Nghymru.
- **darparu gwasanaeth. Byddwn yn:**
    - gosod safonau o ran darparu gwasanaeth ar gyfer gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd yng Nghymru
    - sicrhau cysondeb o ran safonau'n gwasanaeth yn y Gymraeg
    - monitro safonau gwasanaeth yn ymwneud â'n Cynllun Iaith Gymraeg, gan geisio eu gwella trwy sicrhau adborth gan gleifion a'r cyhoedd yng Nghymru (yn y Gymraeg a'r Saesneg) o leiaf unwaith y flwyddyn.
- **cyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru:**
    - byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriadau cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddant yn darparu themâu allweddol, y gweithredu gofynnol ac amserlen ymgynghori ar gyfer ymateb gan gleifion a'r cyhoedd. Gall cleifion a'r cyhoedd gysylltu â ni ar 020 7389 8030 i ofyn am gopïau papur o ymgynghoriadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
    - gan nad oes gennym staff sy'n siarad Cymraeg, rydym yn bwriadu defnyddio asiantaeth gyfieithu i reoli ein cyfathrebu ysgrifenedig yn y Gymraeg yn ôl yr angen.
    - bydd ein rhaglen hyfforddiant yn rhoi canllaw i staff a'n rheolwyr ar sut i ddelio â chyfathrebu ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn ymateb i lythyron a gohebiaeth electronig a ddaw i'n swyddfa yn Gymraeg a Saesneg. Bydd llythyron a anfonir atom yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg wedi'i lofnodi.

- byddwn yn cynnal cronfa ddata o unigolion neu sefydliadau sydd eisiau cyfathrebu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg.

- **delio â galwadau ffôn yn y Gymraeg**
    - oherwydd ein lleoliad a'n hadnoddau presennol ni allwn ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bobl sy'n ein ffonio.
    - os bydd ein derbynfa yn derbyn galwad Gymraeg (rhif ffôn: 020 7389 8030), byddwn yn cynnig yr opsiwn o barhau gyda'r alwad yn y Saesneg neu gyflwyno'r ymholiad i ni yn ysgrifenedig.
    - byddwn yn ymateb i ymholiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg trwy ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu a benodir gennym.

Delwedd gorfforaethol

Enw swyddogol y corff yn Gymraeg yw Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd. Nid oes gennym hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog na logo ar hyn o bryd. Fodd bynnag byddwn yn cynnal adolygiad o'n henw a'n logo corfforaethol yn y dyfodol gyda'r nod o ddatblygu brand corfforaethol dwyieithog i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Cyhoeddi ac argraffu deunydd

Wrth gyhoeddi dogfennau newydd, byddwn yn cyhoeddi crynodebau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer cleifion a'r cyhoedd am resymau ymarferol. Byddwn yn cymryd gofal i sicrhau bod y crynodebau hyn o'r un ansawdd, ac y'i cyhoeddir ar yr un pryd, eu bod yr un mor hygyrch ac yn cael eu dosbarthu ac arddangos gyda'i gilydd.

Mae sawl rheswm pam ein bod yn darparu cyhoeddiadau:

- byddwn yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol, Arolwg Perfformiad Blynyddol ac Arolwg Blynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- byddwn yn rhoi'r cyfle i gleifion a'r cyhoedd gael gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg mewn print ac yn electronig pan fo'r wybodaeth hon yn berthnasol i gleifion a'r cyhoedd.
- bydd canllawiau print ac electronig ar gyfer rheoleiddwyr a deunyddiau arbenigol eraill ar gyfer rhanddeiliaid nad ydynt yn gleifion na'r cyhoedd yn Saesneg yn unig.
- mae pob un o'n dogfennau ar gael yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, os rhoddir pris ar gyhoeddiad yn y dyfodol, ni fydd pris gwerthu cyhoeddiad Cymraeg yn fwy na phris fersiwn Saesneg o'r un cyhoeddiad.

- mewn achosion ble byddwn yn anfon pamffledi, taflenni neu lythyron cyffredinol at y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfarfodydd cyhoeddus

- bydd ein hagenda a phapurau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan.
- Byddwn yn gwahodd pobl fydd yn bwriadu mynychu'n cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru i roi gwybod i ni ymlaen llaw am eu dewis iaith. Pan fyddwn yn ymwybodol y bydd siaradwyr Cymraeg yn mynychu'n cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau gwasanaeth cyfieithydd yn y cyfarfodydd hynny.
- pan fyddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn argraffu dogfennaeth ddwyieithog i'w dosbarthu yn y digwyddiadau hyn neu'n dosbarthu copïau electronig drwy e-bost cyn y cyfarfodydd.

Datganiadau i'r wasg

- pan fyddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg, os yw'r neges ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru, byddant wedi eu cyfeirio at y wasg Gymraeg yn Gymraeg. Pan fydd datganiadau i'r wasg yn cael eu darparu i bapurau Saesneg a ddosberthir yng Nghymru, byddwn yn rhyddhau datganiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd ar gyfer y dosbarthiad yng Nghymru.
- os byddwn yn dewis cynnal cynhadledd i'r wasg neu friffio'r wasg yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaethau cyfieithu os bydd newyddiaduron Cymraeg yn ein rhybuddio o flaen llaw o'r angen.

Hysbysebu a chyhoeddusrwydd

Recriwtio a hyfforddi

- Nid oes swyddfeydd gennym yng Nghymru. Er hynny, ar gyfer unrhyw swyddi a fydd yn gyfrifol am gyswllt helaeth â'r cyhoedd yng Nghymru yn y dyfodol, byddwn yn ystyried a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol – a chaiff hyn ei ddatgan mewn unrhyw fanylebau swydd a hysbysebion fel y bo'n berthnasol.

Recriwtio ar gyfer swyddi ar y Cyngor yng Nghymru

- bydd hysbysebion recriwtio yn ymddangos yn y Gymraeg mewn papurau newydd a gyhoeddir yn y Gymraeg

- bydd recriwtio a hysbysebion yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith ond sydd wedi eu dosbarthu yng Nghymru. Yn yr achos hwn, darperir y testun Cymraeg a Saesneg i gyhoeddiadau o'r fath ar yr un pryd.

Trydydd partïon

Pan fyddwn yn gweithio gydag isgontractwyr yng Nghymru, byddwn yn eu rhybuddio am ein hymrwymiadau dan ein Cynllun Iaith Gymraeg. Tynnir sylw at unrhyw rannau o'r Cynllun y bydd disgwyl iddynt eu gweithredu. Caiff perfformiad yn erbyn contractau o'r fath ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun.

Gweithredu ein Cynllun

Staff a'u cyfrifoldebau

- bydd y Rheolwr Materion Cyhoeddus yn sicrhau bod y rhai sy'n gysylltiedig â recriwtio a hyfforddiant yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y Cynllun Iaith Gymraeg.
- bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau.
- byddwn yn defnyddio'r adnodd ymwybyddiaeth iaith am ddim 'Iechyd Da' yn rhan o'r cwrs hyfforddiant a ddarperir i staff a rheolwyr. Yn ogystal, byddwn yn gofyn am DVD hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r perwyl hwn.
- I sicrhau effeithiolrwydd ein Cynllun Iaith Gymraeg, cynghorir staff a rheolwyr ar ofynion y Cynllun a'i oblygiadau ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.
- bydd staff newydd yn cael gwybod am ein hymrwymiad i'r Cynllun Iaith Gymraeg yn yr hyfforddiant cynefino.

Monitro ein Cynllun

Byddwn yn cyhoeddi unrhyw ddatblygiadau ar weithredu a monitro ein Cynllun Iaith Gymraeg bob tair blynedd trwy ddiweddariadau i'n Cynllun Cyfathrebu. Bydd y Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol yn monitro gweithrediad y Cynllun ar y sail ganlynol:

- byddwn yn darparu adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg o ddyddiad cyhoeddi'n Cynllun wedi'i gymeradwyo. Bydd yr adroddiad hwn yn adolygu datblygiad yn erbyn yr amserlen a gymeradwywyd ar gyfer y Cynllun (gweler atodiad 1). Yn yr arolwg cyntaf, byddwn yn ystyried unrhyw ddiweddariadau pellach i'n Cynllun, os credir bod angen.
- yn nhrydedd blwyddyn gweithrediad ein Cynllun, byddwn yn paratoi adroddiad yn asesu a gwerthuso ein perfformiad cyffredinol o ran gweithredu'r Cynllun hwn. Bydd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad o ddarpariaeth gwasanaeth a rheolaeth o'r Cynllun,

gan amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd i ddod a darparu amserlen newydd ar gyfer gweithredu mesurau pellach.

Cwynion ynghylch ein Cynllun

Gellir cyflwyno cwynion ynghylch ein Cynllun trwy'n gwefan yn yr adran cwynion ar y wefan: www.chre.org.uk

Gellir hefyd cyfeirio cwynion at:

Rachael de Souza

Rheolwr Materion Cyhoeddus, Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd

Ffôn: 020 7389 8031

E-bost: Rachael.desouza@chre.org.uk

Amserlen a thargedau

Rhoddir amserlen a thargedau ar gyfer gweithredu ein Cynllun yn ein cynllun gweithredu (Atodiad 1).

Cyhoeddusrwydd ar gyfer ein Cynllun

Byddwn yn lansio'n Cynllun trwy ei gyhoeddi ar ein gwefan ar yr un dyddiad ag y byddwn yn lansio'r cyfleuster i gleifion a'r cyhoedd ddewis rhwng Cymraeg a Saesneg. Bydd y cyfleuster hwn ar gael ar gyfer deunydd sy'n berthnasol i gleifion a'r cyhoedd ar ein gwefan. Byddwn yn hysbysu cysylltiadau allweddol yng Nghymru am y Cynllun, gan eu cyfeirio at ein gwefan (www.chre.org.uk).

Adrodd ar berfformiad

Rydym yn ymroddedig i gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â chyflawni safonau a thargedau a sefydlir yn y Cynllun fel a ganlyn:

- Bydd y Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol yn darparu diweddariadau blynyddol i'n Cyngor, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a

Llywodraeth y Cynulliad i ddisgrifio datblygiad ar weithredu mesurau yn ein Cynllun yn erbyn yr amserlen a gymeradwywyd.

- Bydd y Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol yn darparu esboniad i'r Cyngor, Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith os na fydd safonau a thargedau a gyhoeddwyd wedi eu bodloni. Yn yr achosion hyn, fe ddatblygir a chytuno ar gynllun gweithredu i esbonio sut rydym yn gobeithio cyflawni'r targedau hyn.
- bydd y Rheolwr Materion Cyhoeddus yn darparu adborth rheolaidd ar ddatblygiadau yn ymwneud â'r Cynllun i staff.

Gweler Atodiad 1 ar dudalen 10: cynllun gweithredu ar gyfer y Cynllun

	Targed	Amserlen	Arweinydd
1.	Cynnig drafft o'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r Cyngor	Ch1'09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
2.	Comisiynu asiantaeth gyfieithu	Ch1'09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
3.	Darparu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ddwyieithog i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Ch1/Ch2 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
4.	Rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos.	Ch2/Ch3 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
5.	Cyhoeddi'r Cynllun terfynol ar ein gwefan (ar y dudalen Gymraeg)	Ch2/Ch3 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
6.	Darparu hyfforddiant i staff ar y Cynllun Iaith Gymraeg.	Ch3 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
7.	Cynhyrchu cyhoeddiadau Saesneg a Chymraeg wedi'u hanelu at gleifion a'r cyhoedd.	O Ch3 '09 ymlaen	Rheolwr Materion Cyhoeddus i oruchwylio
8.	Sicrhau bod polisïau sefydliadol yn adlewyrchu ein hymrwymiad dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	O Ch3 '09	Pennaeth Gweithrediadau
9.	Cynnwys y Cynllun Iaith mewn rhaglenni cynefino staff.	Ch3 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
10.	Darparu datganiadau i'r wasg Cymraeg i gyhoeddiadau Cymraeg yn unig.	Ble fo'n berthnasol o Ch3 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
11.	Monitro gweithrediad y Cynllun	Ch3 '10	Rheolwr Materion Cyhoeddus
12.	Cynhyrchu adroddiadau blynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Ch2/Ch3 '09	Rheolwr Materion Cyhoeddus
13.	Gwahodd siaradwyr Cymraeg i ymuno â'n Rhwydwaith Rhanddeiliaid Cyhoeddus sy'n archwilio ein cyfathrebu allanol.	Ch1 '10	Rheolwr Materion Cyhoeddus
14.	Asesu a gwerthuso perfformiad o ran gweithredu'r Cynllun. Darparu diweddariad blynyddol i'r Cyngor, Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.	Ch2/Ch3 '10	Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol
15.	Adolygu a diweddaru ein Cynllun yn ein cynllun strategol 3 mlynedd.	Ch2 '11	Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol
16.	Hysbysebu swyddi ar gyfer aelodau Cymraeg o'r Cyngor yn defnyddio'r confensiwn a argymhellir yn y Cynllun.	Ch3/Ch4 '11	Pennaeth Gweithrediadau
17.	Asesu ac adolygu newidiadau i'r brand corfforaethol ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan dalu sylw i'r Cynllun Iaith Gymraeg wrth benderfynu.	Ch3/Ch4 '11	Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chysylltiadau Allanol

Atodiad 1